



POLISI TALIADAU MEYSYDD PARCIO

Polisi ar gyfer Codi Taliadau am Barcio Ceir

Cyngor Sir Penfro

Diweddarwyd Chwefror 2018

1. Cyflwyniad

Yn y polisi hwn, nodir y drefn a'r sail resymegol ar gyfer codi taliadau parcio gan Gyngor Sir Penfro. Bydd y polisi'n nodi pa daliadau a fydd yn berthnasol, os o gwbl, a'r amser aros priodol ym mhob lleoliad. Polisi wedi'i ddiweddarau yw hwn, a'r polisi gwreiddiol wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor ar 31 Hydref 2002, ar ôl gweithredu Gorfodi Parcio Sifil.

2. Egwyddorion Allweddol

Mae angen ystyried yr egwyddorion canlynol wrth bennu taliadau parcio ceir. Mae angen cymhwyso'r egwyddorion hyn yn gyson, gan arwain at wahanol daliadau o'r naill le i'r llall, a sicrhau nad yw taliadau'n ffafrio un ardal mewn perthynas ag un arall:

- Mae angen annog masnach adwerthu
- Mae angen rheoli traffig, gan gynnwys parcio ar y stryd a llifoedd traffig
- Mae angen rheoli galw'n effeithiol
- Natur y lle parcio a'i ddefnyddwyr, h.y. trefol siopwr/busnes, preswyl, siopwr tref wledig, traeth/ymwelydd
- Cymharu â darparwyr eraill yn yr ardal
- Mae angen annog pobl i ddefnyddio mathau mwy cynaliadwy o gludiant, gan gynnwys cludiant cyhoeddus
- Ni osodir taliadau dim ond i gael incwm
- Ystyried darpariaeth gyffredinol y gyllideb refeniw (gwariant ac incwm) ar gyfer meysydd parcio
- Rhagdybiaeth o blaid gwelliannau'n cael eu hariannu gan dariff cynyddol

2.1 Economi

Dylid gosod taliadau meysydd parcio mewn modd sy'n gwneud y mwyaf o'u heffaith fuddiol bosibl i annog siopa lleol. I sicrhau y bodlonir yr amcan polisi hwn, rhaid ystyried taliadau parcio ceir fesul tref, a rhaid ystyried breuder yr economi leol.

2.2 Rheoli Traffig a Pharcio ar y Stryd

Gall taliadau parcio ceir achosi i fodurwyr chwilio am le am ddim yn rhywle arall cyn derbyn bod angen talu i barcio, a dylanwadu ar y lle parcio y byddant yn ei ddefnyddio pan fydd dewis. Gall tariffau amrywiol ddylanwadu ar ddewis y lleoliad.

Yn sgil dyhead i barcio ar y stryd, mae traffig yn teithio o gwmpas y strydoedd yn chwilio am leoedd. Mae parcio anghyfreithlon ar linellau melyn yn digwydd yn lleol; fodd bynnag, gyda Phwerau Gorfodi Sifil, mae gennym bwerau gorfodi bellach i fynd i'r afael â hyn. Bydd codi taliadau am barcio ar y stryd, a gwell gorfodi, yn dylanwadu ar y dewis o lleoliadau parcio. Lle cyflwynir taliadau ar y stryd, bydd y tariffau'n ystyried argaeledd parcio oddi ar y stryd ac a yw'n ddymunol lleihau'r lle parcio ar y stryd er mwyn rheoli'r traffig yn well.

Rydym bellach yn gweithredu 57 o gynlluniau parcio preswylwyr ar y stryd ledled y sir. Bu'r cynlluniau parcio hyn yn llwyddiannus iawn, a nifer cadarnhaol yn manteisio arnynt. Gall cynlluniau gael eu datblygu bellach lle mae preswylwyr yn dymuno eu cael.

Mae nifer o opsiynau y gellir eu hystyried i gynorthwyo rheoli traffig a gorfodi parcio ar y stryd, a'r rhain yn cynnwys:

- Gorfodi Parcio Sifil
Rydym yn gweithredu Gorfodi Parcio Sifil ers mis Chwefror 2011. Mae hwn wedi rhoi'r pwerau i'r awdurdod reoli troseddau parcio ar y stryd ac oddi ar y stryd.
- Parthau Parcio a Reolir
Gellir cyflwyno Parthau Parcio a Reolir fesul ardal, a'r diffiniad o reoli ar gyfer pob parth parcio a reolir yn cael ei bennu mewn gorchymyn traffig. Gall y parthau parcio hyn a reolir gael eu gorfodi gan yr Awdurdod Lleol o dan y drefn Gorfodi Parcio Sifil.
- Taliadau ar y Stryd
Ystyrir ei bod yn briodol gwneud parthau parcio ceir yr un mor berthnasol i ardaloedd ar y stryd ag y maent i feysydd parcio oddi ar y stryd. Lle cymhwysir taliadau ar y stryd, dylai'r tâl fod o leiaf cymaint â'r parcio oddi ar y stryd ar gyfer y parth parcio ceir hwnnw. Lle na fydd tâl yn cael ei godi ar y stryd, dylid cymhwyso cyfnod o aros cyfyngedig i adlewyrchu'r parth parcio ceir, a dylai'r arhosiad mwyaf fod yn llai na'r parcio oddi ar y stryd sy'n berthynol i'r parth parcio ceir hwnnw. Beth bynnag, dylid cyfyngu ar barcio ar y stryd a hynny heb fod yn fwy nag 1 awr ym mhob ardal Parth A.
- Parcio i Breswylwyr
Lle bydd preswylwyr yn awgrymu, gellir cyflwyno cynlluniau parcio i breswylwyr lle gellir cyfyngu ar barcio i gilfachau dethol ar y stryd drwy brynu trwydded flynyddol, er nad yw'r drwydded yn sicrhau y ceir defnyddio lle penodol.
- Adolygu gorchmynion traffig
Mae angen adolygu'n barhaus y gorchmynion traffig cyfredol i sicrhau eu bod yn bodloni'r gofynion ar lif traffig a gofynion parcio.

2.3 Rheoli Galw

Dylai taliadau parcio ceir gael eu gosod i annog siopwyr (y mae angen iddynt gludo nwyddau), y mae'n debygol y bydd angen lleoedd arhosiad byr arnynt. Lle mae galw mawr am leoedd parcio ceir a/neu brinder lleoedd, dylid gosod cyfnodau a thariffau parcio yn ofalus i sicrhau'r trosiant gorau posibl. Yn gyffredinol, bydd gofyn i ddefnyddwyr arhosiad hirach barcio ymhellach i ffwrdd o ganol trefi lle mae galw mawr am leoedd arhosiad byr.

2.4 Parthau Parcio

Yn fras, bydd natur y lleoliadau parcio ceir yn pennu'r taliadau perthynol y dylid eu cymhwyso (os o gwbl). Drwy'r polisi hwn, bydd lleoliadau parcio ceir yn cael eu dosbarthu i un o'r parthau canlynol yn gam cyntaf i bennu'r taliadau mwyaf priodol i'w cymhwyso:

Parth	Disgrifiad	Enghreiffitiai	
		Oddi ar y Stryd	Ar y Stryd
A	Siopa canolog a defnyddiau arhosiad byr eraill (galw mawr, trosiant uchel). Arhosiad mwyaf o 2 awr.	Llawr gwaelod maes parcio aml-lawr (Dinbych-y-pysgod/Hwlfordd) Perrots Road, Hwlfordd. Castle Lake, Hwlfordd (ardal arhosiad byr).	Stryd Fawr, Hwlfordd. Charles St, Aberdaugleddau
B	Defnydd cymysg, arhosiad canolog i hir gyda rhai lleoedd arhosiad byr gorlif (galw mawr). Aros o 2 awr i ddyddiol gan gynnwys tariff 4 awr.	Lloriau uchaf maes parcio aml-lawr (Dinbych-y-pysgod/Hwlfordd) Castle Lake, Hwlfordd (ardal arhosiad hir).	Esplanade, Dinbych-y-pysgod. Perrots Road, Hwlfordd.
C	Arhosiad hirach, cyrion tref. Aros o 4 awr i ddyddiol. Cynnwys hefyd Arhosiadau 5 awr	Townsmoor, Arberth The Commons, Penfro. I gynorthwyo gyda phatrymau gweithio hyblyg	The Croft, Dinbych-y-pysgod.
D	Traeth gwledig/allan o'r dref. Aros o 2 awr i ddyddiol.	Niwgwyl.	St. Justinians, Tyddewi.

Cynigir dosbarthu pob lleoliad parcio ceir cyhoeddus i un o'r parthau hyn. Caiff ffactorau eraill eu harchwilio wedyn, gan gynnwys breuder yr economi, rheoli traffig, y galw am leoedd, a chymharu â darparwyr lleol eraill, er mwyn cyfrifo'r taliadau i'w cymhwyso ym mhob lleoliad. Bydd y taliadau parcio ceir yn cael eu hadolygu yn unol â'r polisi hwn. Nid yw'r Peiriannau Talu ac Arddangos yn rhoi newid, felly ni fydd ad-daliadau yn cael eu talu am "ordalu" hyd arhosiad.

2.5 Cymharu â Darparwyr eraill

Dylai'r taliadau ystyried darparwyr eraill yn yr ardal ac awdurdodau lleol tebyg eraill. Mae angen cymharu'n lleol er mwyn cadw ein safle yn y farchnadfa ac i sicrhau bod amcanion rheoli traffig yn cael eu bodloni. Wrth bennu taliadau, mae angen ystyried y

taliadau a godir gan awdurdodau lleol tebyg, i ryw raddau, i sicrhau nad ydym yn annog ymwelwyr i beidio â theithio neu ddychwelyd i Sir Benfro. Bydd trafodaethau gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn archwilio'r potensial iddo gymhwyso'r polisi parcio ceir hwn i'w feysydd parcio ei hun, er cysondeb i ddefnyddwyr meysydd parcio yn y Sir.

2.6 Cynaliadwyedd

Gall taliadau parcio ddylanwadu ar symudiadau traffig lleol, gan effeithio'n gadarnhaol efallai wedyn ar yr amgylchedd lleol. Nid yw taliadau parcio yn gallu effeithio cymaint ar ddewis modd cludiant, e.e. trosglwyddo i gludiant cyhoeddus, sy'n fater ehangach. Mae cynyddu taliadau i annog pobl i beidio â theithio mewn ceir preifat yn annhebygol o gael yr effaith a ddymunir heb gyfuno hyn â mentrau eraill.

2.7 Cynhyrchu Incwm

Ni osodir taliadau parcio er mwyn cynhyrchu incwm yn unig. Mae'r Cyngor yn defnyddio'r incwm o daliadau parcio er mwyn cynnal darpariaeth gwasanaeth i safon o ansawdd. Lle bo'n briodol, bydd y Cyngor yn sicrhau gwelliannau gweledol i ansawdd ardaloedd parcio a'u hamgylchedd.

Mae angen cynnal a chadw ardaloedd parcio'n dda, gan eu goleuo'n dda a'u cadw'n agored, i ddarparu amgylchedd diogel i fodurwyr a'u cerbydau. Mae incwm o daliadau parcio yn galluogi plismona rheolaidd gan Swyddogion Gorfodi Sifil, ac yn helpu i leihau fandaliaeth a throseddau ceir, gan roi mwy o hyder, yn enwedig i ddefnyddwyr sy'n agored i niwed.

3.0 Cyfnod Codi Tâl

Bydd y cyfnod amser y bydd taliadau'n ei sicrhau yn cael ei safoni ledled y Sir. Efallai bydd amrywiadau tymhorol i'r cyfnodau codi tâl er mwyn ystyried galw; bydd y cyfnod codi tâl yn cael ei gymhwyso ar bob diwrnod o'r wythnos. Bydd hyn yn galluogi parcio am ddim y tu allan i'r amseroedd hyn, er mwyn gwneud gwell defnydd o'r cyfleusterau yn ystod y cyfnodau pan fydd llai o bwysau ar y lleoedd parcio. Mae cyfnod codi tâl 24 awr syn cynorthwyo gyda'r diwydiant twristiaeth, ac mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i bobl sy'n aros mewn llety lleol.

4.0 Consesiynau ar gyfer Arhosiad Hir

Lle mae cwsmeriaid yn debygol o ddefnyddio meysydd parcio arhosiad hirach yn rheolaidd, bydd consesiynau ar gael, fel sy'n briodol, drwy gynnig trwyddedau wythnosol neu benodol. Bydd yr amrywiaeth o dariffau arhosiad hir sydd ar gael ym mhob lleoliad yn dibynnu'n helaeth ar ddefnydd penodol y lleoliad, gan ystyried unrhyw amodau sy'n cael eu cynnwys mewn trefniadau prydlesu lle byddant yn berthnasol. Lle byddant ar gael, dylid monitro tocynnau cilfach ar gadw yn ofalus i sicrhau bod lleoedd ar gael yn ehangach.

4.1 Tocynnau Wythnosol

Bydd tocynnau wythnosol yn cael eu darparu ym mhob maes parcio arhosiad hir i annog ymwelwyr i'w defnyddio tra byddant yn aros yn yr ardal. Nid yw tocynnau

wythnosol yn sicrhau lle parcio. Bydd y gyfradd wythnosol yn cael ei chynnig am ddisgownt o'r gyfradd ddyddiol, gan brynu gwerth 5 diwrnod o gyfradd ddyddiol i gael aros am 7 diwrnod. Efallai bydd y gyfradd hon yn cael ei hamrywio gan ddibynnu ar ddefnydd y maes parcio. Nid yw'r rhain yn drosglwyddadwy.

4.2 Y Penfro – Trwydded Blwyddyn Gron Sirol (Meysydd Parcio Arhosiad Hir)

Trwydded flynyddol a brynir ymlaen llaw. Trwydded ydyw sy'n caniatáu parcio ar draws unrhyw faes parcio arhosiad hir drwy'r flwyddyn, a'r ffi a gynigir yw £200.00 am 12 mis, a'r drwydded yn un generig heb fod yn benodol i gerbyd.

Gwerthir y drwydded hon am gyfnodau lleiaf o 3 mis.

4.3 Yr Wylan – Trwydded Dymhorol (Meysydd Parcio Arhosiad Hir)

Trwydded flynyddol a brynir ymlaen llaw. Trwydded sy'n caniatáu parcio ar draws unrhyw faes parcio arhosiad hir rhwng 1 Mawrth a 31 Hydref yn unig, am ffi o £150.00 am 12 mis, sef trwydded generig heb fod yn benodol i gerbyd.

Gwerthir y drwydded hon am gyfnodau lleiaf o 3 mis.

4.4 Y Pâl – Trwydded Blwyddyn Gron Sirol, maes parcio penodol

Trwydded flynyddol a brynir ymlaen llaw. Bydd trwydded yn cael ei rhoi i barcio mewn maes parcio penodol, sef trwydded generig heb fod yn benodol i gerbyd.

Ffi flynyddol o £150.00 am feysydd parcio blynyddol.

Ffi flynyddol o £125.00 am feysydd parcio tymhorol.

Gwerthir y drwydded hon am gyfnodau lleiaf o 3 mis.

4.5 Trwyddedau Cilfach ar Gadw

Trwydded flynyddol a brynir ymlaen llaw. Bydd trwydded cilfach ar gadw yn cynorthwyo'r defnyddiwr tymor hir sydd am gael lle ar gael yn barhaol. Gwerthir y drwydded hon am gyfnodau lleiaf o 3 mis.

Cyfrifir y ffi fel a ganlyn:-

$(6 \times y \text{ gyfradd ddyddiol} \times 52 \text{ wythnos}) - 30\% \text{ o ddisgownt. Y ffi fwyaf posibl fydd } £540.00$

Fe'u darparir mewn meysydd parcio tymor hir os bydd digon o leoedd parcio ar gael. Bydd mwyafswm o 10% yn cael eu dyrannu mewn perthynas â'r lleoedd parcio cyffredinol yn y maes parcio penodol.

Efallai bydd amgylchiadau eithriadol lle gellir gwneud cilfachau ar gadw ar gael am dâl priodol mewn meysydd parcio arhosiad byr. Gallai hyn ddigwydd lle mae angen atal mynediad i draffig mewn ardaloedd penodol, e.e. lle caiff parthau cerddwyr eu creu.

Nid yw'r tocynnau hyn yn drosglwyddadwy rhwng meysydd parcio; bydd pob tocyn yn enwi'r maes parcio.

4.6 Trwydded Arfordirol

Trwydded flynyddol a brynir ymlaen llaw. Trwydded dymhorol i feysydd parcio arfordirol. Enwir y meysydd parcio penodol yn y gorchymyn parcio ceir. Mae'r drwydded hon yn drosglwyddadwy rhwng y meysydd parcio a enwir. Bydd yn lleddfu'r angen i ddefnyddwyr brynu tocyn dyddiol droeon. Gosodir ffi o £90.00.

Trwydded i feysydd parcio penodol, sef - (Traeth y De, Dinbych-y-pysgod; Marine Road, Aberllydan, Niwglw Uchaf ac Isaf, Quickwell Hill a Merrivale, Tyddewi; Dale; Parrog, Wdig)

4.7 Pasbort Trwydded Barcio

Trwydded wythnosol, a brynir ymlaen llaw. Trwydded drosglwyddadwy fydd hon, a fydd yn caniatáu parcio ym meysydd parcio'r Cyngor, ac eithrio rhai meysydd parcio arhosiad byr. Trwydded hyblyg yw hon, a fydd yn rhoi'r hyblygrwydd i'r prynwr brynu un drwydded ar gyfer nifer o feysydd parcio, a honno'n bennaf i ymwelwyr. Gosodir ffi o £25.00.

4.8 Trwydded Gwarcheidwad

Trwydded flynyddol a brynir ymlaen llaw i ganiatáu Gwarcheidwaid i barcio mewn meysydd parcio penodedig i ollwng a chasglu plant ysgol. Rhestrir y meysydd parcio penodedig yn y gorchymyn meysydd parcio.

Bydd y drwydded yn enwi'r ysgol a'r maes parcio penodedig.

Caniateir y drwydded ar gyfer parcio rhwng 9.00am a 9.30 am a rhwng 2.30pm a 3.30pm, ddydd Llun i ddydd Gwener, yn ystod y tymor ysgol yn unig.

Dim ond i warcheidwaid sydd â phlant yn yr ysgol y rhoir y trwyddedau hyn.

Er na fydd y tocyn hwn yn sicrhau lle parcio, bydd yn lleddfu'r angen i ddefnyddwyr brynu tocyn droeon.

4.9 Trwydded Parcio Ceir i Breswylwyr

Trwydded flynyddol a brynir ymlaen llaw i ganiatáu preswylwyr i barcio mewn meysydd parcio penodedig. Rhestrir y meysydd parcio penodedig yn y gorchymyn meysydd parcio. Bydd y meysydd parcio cymwys yn cael eu rhestru lle ystyrir bod galw am gyfleuster parcio i breswylwyr yn ein meysydd parcio h.y. oherwydd diffyg parcio preifat oddi ar y stryd neu ar y stryd.

Bydd cymhwyster i ymgeisio am drwydded preswlydd yn dibynnu ar y canlynol -

Bydd yr ymgeisydd yn breswlydd mewn stryd neu eiddo penodol a restrir mewn perthynas â phob maes parcio penodedig.

Nid oes parcio oddi ar y stryd ar gael i'r preswlydd sy'n ymgeisio.

Nid oes lle parcio ar y stryd ar gael i'r ymgeisydd yn agos i'w gartref.

Dim ond un drwydded a gyhoeddir fesul eiddo.

Ni fydd y Drwydded yn benodol i gerbyd, caiff ei chyhoeddi gan gyfeirio at y cartref penodol.

Er na fydd y tocyn hwn yn sicrhau lle parcio, bydd yn lleddfu'r angen i ddefnyddwyr brynu tocyn dyddiol droeon.

4.10 Trwydded Cyfnos a Gwawr

Bydd trwydded yn caniatáu i gerbyd barcio rhwng 9.00am a 10.00am a rhwng 3.00pm a 7.00pm drwy'r flwyddyn am ffi o £75.00.

4.11 Digwyddiadau

Weithiau bydd digwyddiadau'n gwneud cais am ganiatâd i ddefnyddio'r meysydd parcio. Bydd ceisiadau'n cael eu hystyried mewn perthynas ag effaith ar barcio. Efallai bydd y ffi'n cael ei hepgor am ddigwyddiadau elusennol.

4.12 Cilfachau Siopa Cyflym

Parcio am ddim am 30 munud.

Mae hyn yn galluogi modurwr i barcio am 30 munud am ddim mewn cilfach a ddyrannwyd.

Nifer y cilfachau fydd 6% o holl gilfachau'r maes parcio ar gyfer y maes parcio penodedig, hyd at fwyafswm o 6 chilfach y maes parcio. Bydd un o'r cilfachau hyn ar gyfer deiliaid Bathodyn Glas (bydd cilfach Bathodyn Glas yn rhoi awr o barcio am ddim i roi mwy o amser i'r deiliad Bathodyn Glas).

5.0 Aseiad Effaith Integredig

Mae'r Awdurdod wedi datblygu offeryn i asesu effaith y strategaethau a'r polisiau a gynigir ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, datblygu cynaliadwy, y Gymraeg ac iechyd a lles. Cymhwysir yr offeryn i'r holl benderfyniadau arfer a pholisi strategol.

6.0 Parcio i'r Anabl

Er mwyn lleihau camddefnyddio, codir yr un tâl ar ddeiliaid 'bathodyn glas' â defnyddwyr eraill, a hynny yn y cilfachau anabl dynodedig a chilfachau eraill ym mhob lleoliad. Pan arddangosir y 'bathodyn glas' yn glir, caniateir awr ychwanegol o aros. Bydd pob lleoliad yn darparu nifer digonol o gilfachau i'r anabl, a bydd mesuryddion parcio yn cael eu gwneud yn hygyrch i ddefnyddwyr cadair olwyn.

7.0 Gorchymyn Meysydd Parcio

Mae'r Gorchymyn Meysydd Parcio'n nodi'r rheoliadau i bob maes parcio a weithredir gan y Cyngor sy'n hygyrch i'r cyhoedd, ni waeth a godir tâl ai peidio. Mae'r Gorchymyn yn nodi'r amodau defnyddio ar gyfer maes parcio, lefel yr Hysbysiadau Tâl Cosb a phryd y ceir eu cymhwyso.